Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.14 Buddsoddi mewn gwirfoddolwyr

Cardiff Third Sector Council
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yw safon ansawdd y DU ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr.

Mae'r Safon yn cynnwys naw dangosydd ar gyfer arfer gorau mewn rheoli gwirfoddolwyr, sy'n seiliedig ar bedwar maes allweddol o reoli gwirfoddolwyr:

- cynllunio ar gyfer cynnwys gwirfoddolwyr
- recriwtio gwirfoddolwyr
- dewis a pharu gwirfoddolwyr
- cefnogi a chadw gwirfoddolwyr

Caiff *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* ei rheoli gan bedair asiantaeth ddatblygu Fforwm Gwirfoddoli'r DU:

- Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO)
- Volunteer Scotland
- Volunteer Now (Gogledd Iwerddon)
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yng Nghymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) sy'n rheoli *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yng Nghymru. Mae'r safonau, yr asesu a'r achredu yr un fath i bob mudiad, ble bynnag y mae yn y DU. Bydd rhai gwahaniaethau yn y ffordd y caiff y safon ei rheoli ym mhob gwlad.

I gael mynediad at *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* drwy CGGC, mae angen i'ch mudiad fod yng Nghymru a chael ei gyfeiriad cofrestredig a'i brif swyddfa yno.

I fudiadau sydd â diddordeb mewn *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr*, mae tri cham.

Cam 1: Lawrlwytho a defnyddio'r Safon

I fudiadau sydd eisiau defnyddio *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* fel fframwaith a model ar gyfer gwella a datblygu eu harferion.

Gellir lawrlwytho'r safon am ddim o dudalen groeso'r wefan
www.investinginvolunteers.org.uk

Gallwch ddewis symud ymlaen i gofrestru'n ffurfiol ar unrhyw adeg i wneud Gwiriad Iechyd (Cam 2), neu weithio tuag at yr Asesiad *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* (Cam 3).

Cam 2: Gwiriad Iechyd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Gallwch ddewis gwneud Gwiriad Iechyd *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* a'i ddefnyddio fel y mynnoch ar eich cyflymder eich hun, heb ymrwymo i weithio tuag at gyflawni'r Safon.

Byddwch yn cael cyfle i adolygu sut rydych am barhau, unwaith y bydd y Gwiriad Iechyd wedi'i gwblhau.

Byddai cwblhau Gwiriad Iechyd yn cael ei ystyried yn dystiolaeth o sylw i arfer da ac o gael safbwynt allanol, ond ni ellir datgan hawl i gyflawni'r Safon *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* cyn i chi gwblhau Cam 3.

Cam 3: Cyflawni'r dyfarniad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

I gyflawni'r dyfarniad *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr*, bydd angen i chi gofrestru ar-lein i gael y dogfennau a symud ymlaen gyda'r dyfarniad. Yna, dilynwch y camau a amlinellwyd isod.

Cam Un: Dechrau
Ar ôl cofrestru ar-lein, bydd rhywun o'r tîm *Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr* yn cysylltu â chi i drafod y broses ac i gytuno ar y ffordd orau ymlaen i'ch mudiad. Yn ystod y cam hwn, bydd Asesydd yn cael ei benodi i weithio gyda chi. Byddwch yn cael mynediad at ganllawiau ac adnoddau i'ch helpu chi ar y wefan.

Cam Dau: Gwiriad Iechyd
Bydd eich Asesydd yn cysylltu â chi i drefnu diwrnod ar gyfer eich cyfarfod Gwiriad Iechyd. Yn ystod y cyfarfod hwn, bydd yn gweithio trwy'r dangosyddion gyda chi ac yn nodi lle mae'r arferion yn cael eu cyflawni. Os nad ydynt yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd, bydd eich Asesydd yn rhoi adborth i chi ar lafar ynghylch pa feysydd datblygu sydd angen canolbwyntio arnynt. Byddwch wedyn yn derbyn copi cyflawn o'r Gwiriad Iechyd a fydd yn dangos i chi lle sydd angen ei ddatblygu, awgrymiadau ar sut i wneud hynny a'r canlyniadau a ddisgwylir.

Cam Tri: Datblygiad
Cymerwch eich amser i weithio ar y pwyntiau datblygu a nodwyd. Bydd eich Asesydd yn gwirio'r dystiolaeth yn barod ar gyfer yr asesiad. Bydd hefyd angen i chi gasglu dogfennau perthnasol ynghyd, a bydd eich Asesydd yn eich cynghori ar ba dogfennau yr hoffai ei weld cyn neu yn ystod eich asesiad.

Cam Pedwar: Asesiad
Pan fyddwch chi a'ch Asesydd yn teimlo eich bod yn barod, a phan fyddwch wedi rhoi'r cynllun datblygu y cytunwyd arno ar waith, byddwch chi'n barod ar gyfer eich ymweliad(au) Asesu. Bydd hyn yn cynnwys cyfweliadau â sampl o wirfoddolwyr, staff ac ymddiriedolwyr. Ar ôl eich asesiad, byddwch yn cael adborth ar lafar gan yr Asesydd. Bydd ef neu hi naill ai'n argymell eich bod yn cael y Dyfarniad *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* neu beidio (yn unol â chymeradwyaeth gan y Panel Sicrhau Ansawdd – gweler Cam Pump isod). Bydd hefyd yn amlinellu unrhyw gamau datblygu a fydd yn cael eu nodi yn yr adroddiad y gallech fod eisiau eu hystyried erbyn eich asesiad adnewyddu mewn tair blynedd. Bydd adroddiad ysgrifenedig yn dilyn.

Os bydd eich Asesydd yn rhoi gwybod i chi na fuoch yn llwyddiannus, bydd yn nodi pa arferion sydd angen eu datblygu ymhellach.

Cam Pump: Sicrhau Ansawdd Lleol a Chenedlaethol
Bydd adroddiad yr Asesydd yn cael ei archwilio a'i ddilysu'n gyntaf gan Brif Asesydd – Asesydd Cymru profiadol.

Caiff yr argymhelliad ei gyflwyno wedyn i Banel Sicrhau Ansawdd y DU, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.

Mae'r Panel Sicrhau Ansawdd yn cymeradwyo penderfyniad yr Asesydd ac yn cyflwyno'r argymhelliad i Fforwm Gwirfoddoli'r DU i'w gymeradwyo. Bydd y dyfarniad yn ddilys o ddyddiad y panel sicrhau ansawdd, am gyfnod o dair blynedd. Byddwch yn cael gwybod y penderfyniad hwn o fewn 5 diwrnod gwaith.

Cam Chwech: Ennill y Dyfarniad
Da iawn chi! Byddwch yn derbyn y Dyfarniad *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* ac yn gallu defnyddio'r logo *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* ar eich llythyrau a chyhoeddiadau. Byddwch yn cael tystysgrif a fydd o bosibl yn cael ei chyflwyno i chi mewn seremoni neu ddathliad o'r dyfarniad.

Byddwch yn cael gwybod ei bod hi'n bryd ei hadnewyddu mewn dwy flynedd a hanner.

Faint mae'n costio?

Mae'r gost o ennill statws *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yng Nghymru yn dibynnu ar faint a natur y mudiad.

Dyma'r costau presennol:

Costau Cofrestru/Gwiriad Iechyd:
- mudiad gwirfoddol £500
- mudiad statudol £600 - £900

Costau asesu:

- mudiadau gwirfoddol £1,000 - £2,000
- mudiadau statudol £1,600 - £2,700

Bydd mudiadau sy'n cyflawni'r Gwiriad Iechyd yn unig dim ond yn talu'r gost Cofrestru/Gwiriad Iechyd.

Sut ydw i'n dechrau arni?

1. Lawrlwythwch y safon i weld a yw hon yn feincnod priodol ar gyfer eich mudiad

2. Trafodwch *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* o fewn eich mudiad, gydag ymddiriedolwyr/aelodau pwyllgor a chyda staff a gwirfoddolwyr. Ystyriwch a fyddech yn hoffi anelu at gyflawni'r Safon, neu wneud y Gwiriad Iechyd yn unig ar hyn o bryd. Gwnewch yn siŵr fod pawb yn cefnogi'ch penderfyniad

3. Cofrestrwch ar-lein a siarad ag aelod o'r tîm *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr*

4. Bydd anfoneb yn cael ei hanfon ar gyfer y ffi gofrestru, ac unwaith y bydd y taliad wedi'i dderbyn, bydd Asesydd *Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr* yn cysylltu â chi

Pa gymorth sydd ar gael?

Adnoddau am ddim:

- Gallwch bori drwy'r adran Gweithio gyda Gwirfoddolwyr ar wefan CGGC, www.wcva.org.uk/volunteering/working-with-volunteers, sy'n cynnwys polisïau enghreifftiol, taflenni gwybodaeth a chyngor a chyhoeddiadau
- Gall eich Canolfan Gwirfoddoli lleol gynnig cyngor penodol, er enghraifft, ar ddatblygu polisïau a gweithdrefnau priodol.

Os byddwch yn cofrestru ar gyfer Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr:

- Unwaith y byddwch yn cofrestru, bydd gennych fynediad at lyfrgell Arfer Da *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* ar-lein, sy'n cynnwys amrywiaeth o gyngor a gwybodaeth ddefnyddiol.
- Os hoffech chi, efallai y gallwn eich rhoi mewn cysylltiad â mudiadau tebyg sydd wedi ennill statws *Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr*, i gael cymorth anffurfiol

Hyfforddiant

Mae'n bosibl y bydd eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol yn cynnig cyrsiau mewn rheoli gwirfoddolwyr. Dewch o hyd i'ch un chi yma

Tanysgrifiwch i restr postio cylchlythyr CGGC i gael yr wybodaeth a'r newyddion diweddaraf am Wirfoddoli a mwy. I wneud hyn, anfonwch e-bost i news@wcva.cymru.

Cwestiynau ar Fuddsoddi mewn Gwirfoddolwyr a Chyllid

Rydym yn lobïo cyllidwyr yng Nghymru i gael mwy o gydnabyddiaeth o'r Dyfarniad *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* drwy ddigwyddiadau, weminarau a chyfarfodydd.

Bydd llawer o gynlluniau grant, gan gynnwys Grantiau Gwirfoddoli Cymru a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, yn ystyried ariannu'r gost a'r amser a dreuliwyd ar ennill statws *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr*, fel rhan berthnasol o gais sy'n ymwneud â gwella cyfleoedd neu brofiadau i wirfoddolwyr.

Byddai'r tîm *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yn falch o glywed am unrhyw brofiadau; er enghraifft, os ydych wedi cael cyllid i gyflawni'r dyfarniad, neu os yw'r dyfarniad wedi'i gydnabod mewn rhyw fodd gan gyrff cyllido.

I gael rhagor o wybodaeth

Gwefan *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr*
www.investinginvolunteers.org.uk
iiv@wcva.cymru
Twitter #IiVUK
Ffôn 029 2043 1750

Ymwadiad
Caiff yr wybodaeth yn y daflen hon ei darparu fel arweiniad yn unig. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a achosir os bydd unrhyw unigolyn yn dewis gweithredu neu beidio â gweithredu ar sail yr wybodaeth hon.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart , Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig: *1068623*

Ffôn: 029 2048 5722 enquiries@c3sc.org.uk
Ffacs: 029 2046 4196 www.c3sc.org.uk

Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:13/02/2020

Ffôn: 0300 111 0124
www.wcva.cymru